## CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **24 Tachwedd 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Bethan Griffith** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 195** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Pris Cinio Ysgolion Cynradd, Arbennig a Dilynol Ionawr 2021** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Peidio â chynyddu pris cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilynol yn Ionawr 2021.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Byddai peidio cynyddu pris cinio ysgol yn unol â chwyddiant o Fedi 2020 yn golygu £48,700 o bwysau ar y gyllideb yn 2020/21 yr Adran Addysg. Felly, mae'n briodol i sicrhau cadarnhad ffurfiol y Cabinet fod peidio cynyddu pris cinio ysgol eleni yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

### 3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Gan fod cyllideb arlwyo cynradd, arbennig a dilynol yn dibynnu ar godi incwm drwy werthiant prydau ysgolion cynradd, mae angen i'r incwm a ddaw o dalu am ginio mewn ysgolion cynradd, arbennig a dilynol gadw i fyny efo chwyddiant costau'r gwasanaeth.

Mae costau darparu cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilynol wedi cynyddu 2.56% yn 2020-21 ac er mwyn cwrdd a'r costau hynny byddai angen codi pris cinio o £2.50 i £2.56. Wrth ei rowndio fyny byddai hyn yn £2.60 (cyfwerth a 4%).

Fodd bynnag, gan ystyried ein sefyllfa gymharol a'r blaenoriaeth sydd gennym o ran lleihau anghydraddoldeb dichon y bydd y Cabinet yn dymuno ystyried pris cinio ysgol yng nghyd destun hynny.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Pan yn cymharu pris cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilynol Gwynedd sef £2.50 gyda gweddill Cyngorau Cymru (atodiad 1), mae 4 yn codi pris uwch, 4 yn codi run pris â Gwynedd a 13 yn codi pris îs.

Gweler ganlyniad holiadur (atodiad 2) a anfonwyd i rieni ysgolion cynradd Hydref 2019 sydd yn nodi fod 134 yn credu fod cinio ysgol rhy ddrud a buasai 142 yn dewis cinio ysgol os yn rhatach.

Byddai codi'r pris cinio yn golygu codi'r pris o £2.50 i £2.60.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Bydd y pris cinio yn weithredol o Ionawr 2021.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:** Oherwydd yr oblygiadau ariannol sydd yn deillio o'r argymhelliad rwy'n cytuno a phriodoldeb dod a gosod lefel y ffioedd cinio ysgol gerbron y Cabinet.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:** Mae canlyniadau'r holiadur cyfeirir ato yn rhan 4 o'r adroddiad uchod yn amlygu'r risg o leihad pellach yn y galw am ginio ysgol pe bawn yn cynyddu'r pris eleni.
Fel adroddwyd yn yr Adolygiad o'r Gyllideb Refeniw i gyfarfod Cabinet 13 Hydref, bydd hyblygrwydd digonol (£311k) yng nghyllideb 2020/21 yr Adran Addysg er mwyn dygymod heb gymorth o'r 'canol' gyda chost (£49k) y penderfyniad a geisir yma.
Fodd bynnag, os rhoddir ystyriaeth i bolisi mwy hir dymor ar gyfer pris cinio ysgol, byddwn angen addasu'r lefel incwm perthnasol yn briodol wrth lunio cyllideb 2021/22.